


DILYN ÔL TROED

Arwyr ac Arwresau Cymru
Santes Dwynwen



 **Cadw**




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r chwedl hon wedi'i lleoli yng Nghymru yn y 5ed ganrif (1,500 o flynyddoedd yn ôl). Roedd yn gyfnod o elyniaeth ac o frwydro am bŵer ac roedd merched yn cael eu priodi er mwyn ffurfio cynghrair yn aml – heb roi unrhyw ystyriaeth i gariad. Ceir sawl fersiwn o'r stori boblogaidd hon – dyma un ohonynt.

Santes Dwynwen

Nawddsant cariadon Cymru



Nawddsant cariadon Cymru
Ffynhonnell: Graham Howells

Roedd y Dywysoges Dwynwen yn ferch hardd i frenin de Cymru. Pan gafodd ei gwahardd rhag priodi'r dyn yr oedd yn ei garu, rhedodd i ffwrdd a daeth yn lleian. Cysegrodd weddill ei hoes i helpu cariadon eraill i ddod o hyd i hapusrwydd.

Daeth Dwynwen yn nawddsant cariadon Cymru. Mae ei bywyd yn cael ei ddathlu bob blwyddyn ar Ddiwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr, sy'n gyfatebol i Ddydd Sant Ffolant.

Cariad gwaharddedig yn troi'n gynddaredd

Dywedid mai Dwynwen oedd yr harddaf a mwyaf afieithus o 24 merch Brychan Brycheiniog, brenin De Cymru (Aberhonddu). Pan oedd hi'n ferch ifanc, cyfarfu â Maelon Dafodrill, mab i frenin cyfagos. Syrthiodd y ddau mewn cariad gan gynllunio i dreulio gweddill eu bywydau â'i gilydd.

Aeth Maelon i ofyn i'r brenin am law Dwynwen mewn glân briodas. Ond gwrthod wnaeth ei thad, gan ddweud ei fod eisoes wedi trefnu cymar addas iddi. Roedd Maelon yn gandryll, gan ddial ar Dwynwen yn ei ddieter. Yna gadawodd y llys mewn cynddaredd.

Tri dymuniad

Rhedodd Dwynwen i'r goedwig, taflodd ei hun ar y llawr ac wylodd nes syrthio i gysgu. Tra oedd yn cysgu, breuddwydiodd bod ysbryd wedi dod ati ac wedi dweud wrthi na fyddai Maelon yn ei phoeni eto oherwydd ei fod wedi cael ei droi'n ddam o rew. Yna dywedodd yr ysbryd wrthi ei bod yn cael tri dymuniad.

Dywedodd Dwynwen dwymgalon wrth yr ysbryd mai ei dymuniad cyntaf oedd i gorff Maelon gael ei ddadmer. Ei hail ddymuniad oedd i wir gariad gael ei warchod bob amser yn ei henw hi. Y trydydd oedd na fyddai hi byth yn syrthio mewn cariad eto, nac yn priodi. Daeth ei tri dymuniad yn wir.


Cysegru ei bywyd i gariadon

Gadawodd Dwynwen ei chartref i atal ei thad rhag ei gorfodi i briodi oherwydd pŵer neu drachwant. Daeth yn lleian gan deithio ledled Cymru yn sefydlu eglwysi ac yn gweddio dros y rhai a oedd yn llawn gofid oherwydd cariad. Daeth i derfyn ei siwrnai ar ynys Llanddwyn, oddi ar arfordir Ynys Môn, ble mae adfail eglwys Dwynwen i'w weld heddiw.

Ar ôl marwolaeth Dwynwen, cysegrwyd ffynnon iddi. Cred rhai bod y ffynnon hon yn gartref i bysgod



Mae cariadon Cymru'n dathlu Diwrnod Santes Dwynwen hyd heddiw



Llanddwyn: ynys ysbrydol a sanctaidd



Ynys Llanddwyn heddiw



Addurn ar Nenfwd Siambr
Ffynnon Sant Gwenffrewi



Cysegrodd Dwynwen ei bywyd
i gariadon
Ffynhonnell: Graham Howells



Capel a Ffynnon Sanctaidd Santes Gwenffrewi, Treffynnon

sanctaidd a bod eu symudiad yn darogan y dyfodol i gariadon. Mae eraill yn dweud bod y ffynnon yn berwi weithiau ac y bydd y rhai sy'n gweld hynny'n cael lwc dda yn eu bywyd carwriaethol.

Cystadleuaeth i Ddydd Sant Ffolant

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Diwrnod Santes Dwynwen wedi dod yn fwy poblogaidd. Fel Dydd Sant Ffolant, mae'n cael ei ddathlu gyda chardiau cyfarch, anrhegion siâp calon, blodau a phartïon.

Cynhaliwyd un o ddigwyddiadau mwyaf anarferol Diwrnod Santes Dwynwen yn Sir Ddinbych yn 2007. Ar y diwrnod, gosododd criw o ffermwyr di-briod luniau ohonyn nhw eu hunain ar gartonnau llefrith, gyda'r neges i ferched 'Ffansio Ffermwr'.

Dilyn ôl troed

Rydych chi wedi darllen stori Dwynwen, felly beth am archwilio rhai o'r llecynnau rhamantus sy'n gysylltiedig â'r stori?



Y fynedfa i Ffynnon Sant Seiriol,
Penmon, Ynys Môn

Ynys Llanddwyn

Mae'r ynys fechan iawn i'w gweld oddi ar arfordir gorllewinol Ynys Môn. Mae'n lle hudolus, boed ar ddyddiau braf yn yr haf, yn niwl yr hydref, neu pan fydd gwynt cryf y gaeaf yn creu tonnau geirwon. Yng nghanol yr ynys mae adfeilion eglwys Santes Dwynwen, gyda'i ffynnon sanctaidd, sy'n cael eu hadfer. I lawer, mae hwn yn llecyn ysbrydol a sanctaidd.

- Chwiliwch o amgylch y tirlun sydd heb ei ddifetha o gwbl. Beth sydd wedi newid ers i Dwynwen gyrraedd yno 1,500 o flynyddoedd yn ôl? Dychmygwch sut bu i harddwch y llecyn roi cryfder i Dwynwen droi torcalon yn iachâd.
- Chwiliwch am ffynnon Santes Dwynwen. Welwch chi'r pysgod tybed, neu'r dŵr yn berwi i ddarogan lwc dda i gariadon?
- Chwiliwch yr ynys am y llecyn mwyaf rhamantus. Rhannwch eich hoff straeon caru neu meddylwch am eich stori eich hun. Fedrwch chi feddwl am glo gwahanol i stori Dwynwen?



Ffynnon Sant Cybi

Ffynhonnau sanctaidd

Mae ffynhonnau sanctaidd i'w gweld ledled gogledd Cymru ac mae gan bob un ei stori ryfeddol ei hun. Dyma rai i chi ymweld â nhw.

Ffynnon Sant Seiriol, Penmon, Ynys Môn

Dywedir bod Sant Seiriol wedi sefydlu'r ffynnon yn y 6ed ganrif a chredid bod ganddi bwerau iachau. Gerllaw mae safle Priordy Penmon, a sylfaenwyd yn y 12fed ganrif.

Ffynnon Sant Cybi, Penrhyn Llŷn

Dywedwyd bod Sant Cybi wedi ymgartrefu yn y rhan hon o Gymru yn ystod y 6ed ganrif. Ar ôl glanio ar Ynys Môn, tarodd graig gyda'i ffon a llifodd dŵr ohoni ar unwaith. Mae'n bur debyg mai Caergybi oedd y safle hwn, ble sefydlwyd mynachlog gan Sant Cybi.

Yn anffodus, nid oes llawer o dystiolaeth i gefnogi'r cysylltiad rhwng y ffynnon ar Benrhyn Llŷn â'r sant ei hun. Roedd y ffynnon fechan ddymunol yn llecyn i bererinion ac, yn ôl y sôn, roedd y dŵr yn gallu gwella defaid ar y croen, cloffni, dallineb, y clefri poeth a gwynegon.

Ffynnon Sanctaidd a Chapel Santes Gwenffrewi, Treffynnon

Mae ffynnon sanctaidd Santes Gwenffrewi wedi denu pererinion ers blynyddoedd maith. Yn ôl y sôn, daeth y ffynnon i'r golwg yn y 7fed ganrif pan ddaeth Sant Beuno â'i nith yn ôl yn fyw ar ôl i gariad a wrthodwyd ganddi dorri ei phen.

Ewch i www.cadw.cymru.gov.uk i ddarganfod mwy am y safleoedd



Y tu mewn i Ffynnon Sant
Gwenffrewi